

# Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 30/07/2018 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

Angela Russell  
Iwan Hughes

Thomas Victor Jones  
Barbara Warren

Greta Hughes  
Rhian Hughes-Jones  
(Clerc)

William Roger Jones

1. **Ymddiheuriadau**

Wedi derbyn ymddiheuriadau gan Penri Jones a Rhodri Ellis Owen

2. **Datgan Buddiant Ariannol neu Personol**

Dim

3. **Cofnodion Mehefin 2018**

Mater o gywirdeb wedi ei godi, nodwyd nad yw'r wybodaeth yn ffeithiol gywir. Wedi derbyn y cofnodion yn gywir ac wedi eu arwyddo.

4. **Unrhyw Fater Brys**

**Diffibriliwr** – Mae yna broblem wedi codi gyda bocs y diffibriliwr; achos o hyn mae'r diffibriliwr 'offline' gyda'r gwasanaeth ambiwlans.

Mae'r clerc wedi siarad hefo Tomos Hughes sydd yn gweithio gyda gwasanaeth ambiwlans Betsi Cadwaladr i fonitro diffibriliwr gogledd Cymru. Mae'n hanfodol i'r cyhoedd cael mynediad hawdd i'r diffibriliwr. Felly mae angen bocs newydd mwy syml yw defnyddio.

Bydd rhaid hefyd cael arwyddion priodol i hysbysebu safle'r diffibriliwr yn ogystal â bet hi wneud mewn argyfwng. Bydd Rhian Hughes-Jones yn edrych i mewn i opsiynau.

Nid yw'r darparwr wedi ymateb i ebyst ond nodwyd bod y bosc yn ei le ers tair mlynedd.

5. **Etholiadau**

Mae'n amser i ethol Is-gadeirydd gan ei fod wedi gohirio o gyfarfod mis Mehefin. Cynigwyd Greta Hughes ac wedi ei chario yn unfrydol.

Yn sgil ymddiswyddiad Falmai Squiers mae'r Clerc wedi paratoi hysbysebion yw gosod yn y pentref ond yn methu cael mynediad i'r hysbysfwrdd. Mae'r pwyllgor am osod yr hysbysebion o amgylch y pentref.

Nodwyd bod angen gwneud gwelliannau i'r hysbysfwrdd a sicrhau mynediad i'r pwyllgor i'r dyfodol.

6. **Rheoliadau Sefydlog**

Mae'r Clerc wedi dechrau ar y gwaith o greu'r dogfennau angenrheidiol. Mae'r gwaith yn eithaf swmpus ond gobeithio bydd y rhan fwyaf yn barod at bwyllgor mis Medi. Bydd y dogfennau ar gael i'r pwyllgor eu gwyro cyn gynted â phosib.

Mae'r pwyllgor yn rhoi hawl i'r Clerc barhau hefo'r gwaith.

7. **Gwefan y Cyngor Cymuned**

Mae'r Clerc mewn cysylltiad gydag Arfon Hughes o Cradur.com. Mae Arfon Hughes yn parhau i dderbyn triniaeth ac felly mae'n anodd i fynd ymlaen a'r gwaith.

Penderfynwyd defnyddio'r wybodaeth a lluniau sydd yn y daflen gwybodaeth. Mae'r wybodaeth i gyd ar gael yn electroneg, ond yn anffodus nid yw hwn wedi do di law eto. Mae'r Clerc am barhau i weithio ar y wefan. Mae'r pwyllgor yn rhoi hawl i'r Clerc gwneud y newidiadau.

# Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

## Cofnodion Cyfarfod 30/07/2018 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

### 8. Archwiliad Mewnol

Mae Rhian Hughes-Jones wedi casglu gwybodaeth sydd wedi ei dderbyn gan y cyn clerch at ei gilydd er eu cyflwyno i'r pwyllgor. Mae'r wybodaeth yn ddigonol i arwyddo'r archwiliad mewnol er ei yrru i'r BDO. Bydd Rhian Hughes-Jones yn gweithio hefo John Harris cyn clerch i sicrhau bod y BDO yn derbyn yr holl wybodaeth.

### 9. GDPR – Diogelu data a dogfennau hanesyddol

Mae'r Cyngor Cymuned wedi ymateb gan yr ICO (Information Commissioner's Office) yn ogystal ag anfoneb am £40.00 i ymaelodi mae'r dystysgrif wedi ei dderbyn. Felly mae Angela Russell wedi ei chofrestru fel swyddog diogelu data Cyngor Cymuned Llanbedrog.

Bydd hyfforddiant yn cael ei drefnu i'r dyfodol.

### 10. Gwobr Pentrefi

Derbynnir rhestr wirio gwybodaeth ychwanegol / tystiolaeth ar gyfer gwneud cais am wobr Pentref Gorau; Cylchlythyr, Dolen I Wefan, Taflenni, Lluniau o ddigwyddiadau, Rhestr gweithgareddau, Hysbysebion ar gyfer gwasanaethau, Cofnodion cyfarfodydd grŵp, Toriadau o gyfryngau, Unrhyw wybodaeth arall. Nodir bydd angen casglu lot o wybodaeth cyn y dyddiad cau sydd yn dyn iawn. Penderfynwyd peidio trio eleni o'n di fod yn barod at flwyddyn nesaf.

### Ceisiadau Cynllunio

#### **C18/0596/38/LL**

Adeiladu estyniad deulawr

The Hollies, Llanbedrog

**Dim Gwrthwynebiad**

### Taliadau wedi eu cymeradwyo

**Cyflog y clerch** - Rhian Hughes-Jones

Gorffennaf 2018 £333.33

Ad-daliad gweinyddol £8.49

**£341.82**

**Cradur.com** – Creu gwefan

**£445.00**

ICO – Aelodaeth

**£40.00**

### Taliadau wedi eu derbyn

**Stackhouse Poland** – Ad-daliad

**£413.88**

### Gohebiaeth

1. **Adran Cynllunio Gwynedd a Mon** – Cynllun datblygu lleol ar y cyd 2011-2016 Gwynedd a Mon
2. **Archifdy** – Diolch am y dogfennau.
3. **Priffyrdd Cyngor Gwynedd** - Rybudd cau ffordd mewn Argyfwng; Lon Pin.

### Cais am gyfraniad

1. Llyfrau llafar Cymru

**Clerch** – Rhian Hughes-Jones • [cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com](mailto:cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com) •

**07748 906 651** • **Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA**

**Cadeirydd** – Angela Russell